

Archwiliad Gwastraff

Cyfnodau Allweddol 1 a 2

Amcanion

Adnabod y prif ardaloedd ble caiff gwastraff ei gasglu yn yr ysgol

- Cynllunio archwiliad o wastraff yr ysgol
- Casglu a didoli gwastraff yn ôl categorïau'r deunydd, e.e. papur, alwminiwm
- Cofnodi mesuriadau gofalus, cywir a gwyddonol o wastraff eu hysgol

Adnoddau

- Cynorthwywyr, un i bob grŵp
- Hen fagiau plastig (wyth i bob grŵp)
- 10-20 bag bin mawr a labeli
- Tafol sbring neu fesurydd Newton
- Gorchudd llawr
- Clipfyrddau gyda chopïau o'r daflen gofnodi
- Menig rwber (pâr yr un)
- Oferôls neu hen ddillad
- Magnetau



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Cwricwlwm

Mathemateg

Mesur

CA1

- cymharu, disgrifio a datrys problemau ymarferol ar gyfer:
 - màs/pwysau [er enghraifft, trwm/ysgafn, trymach na, ysgafnach na]
- mesur a dechrau cofnodi'r canlynol:
 - màs /pwysau

Ystadegau

CA2

- dehongli a chreu pictogramau syml, siartiau cyfrif, diagramau bloc a thablau syml
- mesur, cymharu, adio a thynnu: hydau (m/cm/mm); màs (kg/g); cyfaint/cynhwysedd (l/ml)
- dehongli a chyflwyno data gan ddefnyddio siartiau bar, pictogramau a thablau

Gwyddoniaeth

Gweithio'n wyddonol

CA1

- arsylwi'n fanwl, defnyddio offer syml
- cynnal profion syml
- adnabod a dosbarthu
- defnyddio eu harsylwadau a'u syniadau i awgrymu atebion i gwestiynau
- casglu a chofnodi data er mwyn helpu i ateb cwestiynau

Deunyddiau bob dydd

- gwahaniaethau rhwng gwrthrych a'r deunydd y mae wedi'i wneud ohono
- adnabod ac enwi ystod o ddeunyddiau bob dydd, yn cynnwys pren, plastig, gwydr, metel, dŵr a chraig

Gweithio'n wyddonol

CA2

- casglu, recordio, dosbarthu a chyflwyno data mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn helpu i ateb cwestiynau
- defnyddio canlyniadau i gyrraedd casgliadau syml, gwneud rhagdybiaethau am werthoedd newydd, awgrymu gwelliannau a chodi cwestiynau pellach
- gwneud mesuriadau, gan ddefnyddio ystod o offer gwyddonol, gyda chywirdeb manwl cynyddol, gan gymryd ail fesuriadau yn ôl y galw



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Grymoedd a magnetau

- arsylwi sut mae magnetau yn atynnu neu'n gwrthyrru ei gilydd ac yn atynnu rhai deunyddiau ond nid eraill
- cymharu a grwpio amrywiaeth o ddeunyddiau bob dydd ar sail eu magnetedd, ac adnabod rhai deunyddiau magnetig

CA2

Pethau byw a'u cynefinoedd

- cydnabod y gall amgylcheddau newid ac y gall hyn weithiau achosi peryglon i bethau byw

Priodweddau a newidiadau deunyddiau

- cymharu a grwpio deunyddiau bob dydd ar sail eu priodweddau, yn cynnwys caledrwydd, hydoddedd, tryloywder, dargludedd (trydanol a thermal), ac ymateb i fagnetau

Gweithgaredd

Sylwer: Gall rhieni fod yn bryderus am eu plant yn trin gwastraff wrth gymryd rhan yn yr archwiliad gwastraff – efallai y byddwch yn dymuno anfon ffurflenni caniatâd

Paratoi

Cynhaliwch asesiad risg ar gyfer y gweithgaredd a gadael i'r holl staff wybod pryd y bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal. Gweithiwch gyda'r sawl sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff yn eich ysgol (fel arfer y gofalwr neu'r rheolwr safle) i sicrhau nad ydych yn dewis diwrnod pan nad oes llawer o wastraff neu un pan fo gormod o lawer.

Ar y Diwrnod

Sicrhewch fod nifer o daflenni plastig wedi eu gosod ar lawr y neuadd ger yr offer arall yn barod am y gwastraff a gofynnwch i'r gofalwr neu'r rheolwr safle fagio a labelu'r gwastraff o'r gwahanol leoliadau yn yr ysgol ac yn dod â'r bagiau i'r neuadd. Dylai unrhyw wastraff a allai fod yn beryglus (er enghraifft gwastraff cegin) gael ei roi mewn bag ar wahân fel y gellir ei bwysu'n ddiogel heb ei agor.

Gofynnwch i'r gofalwr neu reolwr y safle pa bryd oedd y casgliad diweddaraf a chyfrifo (neu gofynnwch i'ch dosbarth wneud yn nes ymlaen), faint o ddyddiau ysgol sydd ers i'r gwastraff gael ei gasglu. Efallai y bydd rhaid i chi gyfrifo mwy nag un cyfanswm a gall fod gwahanol ddeunyddiau yn cael eu casglu ar adegau gwahanol.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



Yr Archwiliad

Eglurwch yr agweddau iechyd a diogelwch i'r disgyblion, er enghraifft, rhaid gwisgo menig cyn cyffwrdd unrhyw wastraff, dylai disgyblion alw oedolyn os ydynt yn gweld unrhyw eitemau miniog yn y sbwriel, ac ati.

Pwyswch unrhyw fagiau gwastraff allai fod yn beryglus (e.e. o'r gegin) gyda'r dosbarth/grŵp cyfan, cofnodwch y canlyniadau mewn gramau ar y daflen gofnodi cyn ailosod y gwastraff yn yr ardal briodol ar gyfer y casgliad arferol.

Rhannwch y dosbarth /grŵp yn dri neu bedwar grŵp llai. Dylai pob grŵp gael cynorthwydd abl sydd wedi'i friffio'n llawn, yn ogystal â gorchudd llawr i weithio arno, taflen gofnodi a phensel, a thafol sbring neu fesurydd Newton. Dylai pob plentyn wisgo menig rwber ac oferôls neu hen ddillad os penderfynir fod angen hynny.

Dylai pob grŵp wagio cynnwys un bag o sbwriel ar y tro ar y mat plastig a didoli yn ôl y gwahanol fathau o wastraff a ddangosir ar Daflen Waith 1. Dylai'r disgyblion gofnodi'r lleoliad ar Daflen Waith 1 o'r label ar y bag. Yna didolwch y gwastraff mewn bagiau (bag ar wahân ar gyfer pob math o wastraff) a phwyso a mesur gan ddefnyddio tafol sbring neu fesurydd Newton a chofnodi'r canlyniadau ar y daflen gofnodi.

Unwaith y bydd cynnwys y bagiau plastig ym mhob grŵp wedi cael eu pwyso a'u cofnodi, gellir gwagio'r bagiau i mewn i fagiau bin mwy, a gellir aildefnyddio'r bag llai.

Pan fydd yr holl fagiau wedi cael eu didoli a'r data wedi ei gofnodi, ewch â'r gwastraff yn ôl i'r man priodol ar gyfer ei gasglu fel arfer.

Dilyniant

Y tro nesaf bydd y dosbarth/grŵp yn cyfarfod, byddwch yn gallu cyfrifo cyfansymiau'r gwastraff dyddiol, wythnosol a blyneddol ar gyfer yr ysgol gyfan. Gellir cyfrifo'r cyfanswm dyddiol drwy rannu'r cyfansymiau a gafodd eu pwyso gyda'r nifer o ddiwrnodau ysgol ers y tro diwethaf iddynt gael eu casglu. Gall cyfrifiadau eraill gynnwys:

- Lluosi cyfansymiau dyddiol gyda phump i roi'r canlyniadau wythnosol
- Lluosi canlyniadau wythnosol gyda 39 (y nifer cyfartalog o wythnosau ysgol bob blwyddyn) i roi'r canlyniadau am y flwyddyn
- Gallwch hefyd gyfrifo'r canran o wahanol fathau o wastraff a gynhyrchir

Bydd cymharu data gwastraff o wahanol rannau o'r ysgol yn helpu i nodi mannau lle mae gwastraff yn crynhoi.

Yna, dylech drafod eich canfyddiadau:

- Beth yw'r mathau mwyaf cyffredin o wastraff?
- Oes modd ailgylchu unrhyw faint ohono?
- Pa fath o wastraff fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf pe bai'n cael ei ailgylchu?

Defnyddiwch y wybodaeth o'ch archwiliad gwastraff i gynllunio neu wella eich cynllun ailgylchu fel yr amlinellir yn y gweithgaredd 'Cynllun Gweithredu'.